# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 13/10/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Mesur y Gymraeg

***10. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Fesur y Gymraeg. OAQ(3)1254(HER) W*

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ar 21 Medi amlinellais ymateb y Llywodraeth i Gyfnod 1 y broses graffu. Cyflwynais welliannau'r Llywodraeth ar 5 Hydref, a byddaf yn eu trafod, ynghyd â'r gwelliannau eraill a gyflwynwyd, yn y pwyllgor craffu yfory.

### Eisteddfod Blaenau Gwent

***11. Trish Law:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mlaenau Gwent. OAQ(3)1274(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Eisteddfod eleni oedd y gyntaf i gael ei chynnal yng Nglyn Ebwy ers 1958, ac ni chawsom ein siomi ganddi. Yr wyf yn cymeradwyo pobl Blaenau Gwent am eu brwdfrydedd gydol yr wythnos, ac am eu holl waith caled yn ystod y paratoadau yn arwain at yr Eisteddfod.

### Gwarchod Treftadaeth Cymru yng Nghymru

***12. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer gwarchod treftadaeth Cymru yng Nghymru. OAQ(3)1260(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i warchod treftadaeth Cymru drwy sicrhau bod pobl yn cael cyfle i'w mwynhau, drwy helpu pobl i'w deall a'i gwerthfawrogi, a drwy gefnogi'r bobl hynny sy'n ei rheoli.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1257(HER), yn ôl.*

### Blaenoriaethau

***14. Dai Lloyd:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(3)1269(HER) W*

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn benderfynol o gyflawni fy ymrwymiadau 'Cymru'n Un', gan gynnwys sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg, hybu mwy o weithgarwch corfforol ar

gyfer iechyd gwell, cynyddu twristiaeth drwy wneud y gorau o werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio’r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1280(HER), yn ôl.*

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb

### Cyllideb

***6. Jenny Randerson:*** *Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau y gellir olrhain yn rhwydd newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1201(BB)* ***Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb (Jane Hutt):** Yr wyf yn llwyr gefnogi’r angen i fod yn dryloyw ac yn agored, ac yr wyf yn croesawu’r broses gadarn sy’n ei lle i graffu ar y gyllideb. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, byddwn yn cyhoeddi cysoniad llawn i gefnogi’r broses graffu, fel rhan o’r dogfennau a fydd yn ategu’r gyllideb.

*Atebwyd cwestiynau 7, 8 a 9 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Dyraniad Cyllideb

***10. William Graham:*** *Pa ystyriaethau y mae’r Gweinidog wedi’u rhoi i adolygu'r dyraniad cyllideb i’r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. OAQ(3)1177(BB)*

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi cyhoeddi addasiadau i’r dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn hon yn y gyllideb atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mehefin. Byddwn yn cyflwyno cyllideb atodol arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)1162(BB), yn ôl.*

### Strategaeth Leoli

***12. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y Strategaeth Leoli ar Ogledd Cymru. OAQ(3)1169(BB)*

**Jane Hutt:** Agorwyd swyddfa Cyffordd Llandudno yn swyddogol ar 23 Medi 2010, a denodd y diwrnod agored cyhoeddus dilynol fwy na 2,000 o ymwelwyr. Mae tua 150 o swyddi wedi’u creu yn y gogledd drwy gyfuniad o swyddi newydd ac adleoli swyddi o’r de. Gwariwyd dros £8.7 miliwn yn lleol yn ystod y cyfnod adeiladu.

### Blaenoriaethau

***13. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(3)1198(BB)*

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl rhanbarth Canol De Cymru, fel ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau’n ymroddedig i gyflawni ein hagenda ‘Cymru’n Un’, gan gynyddu i’r eithaf yr adnoddau, er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon, sy’n sicrhau gwerth am arian.

### Gwerth am Arian

**14. Darren Millar:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy’n cael eu cymryd i*

*sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1193(BB)*

**Jane Hutt:** Mae'r ddyletswydd i ddiogelu cyllid cyhoeddus a sicrhau gwerth am arian wrth wraidd holl wariant Llywodraeth y Cynulliad, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni. Mae sicrhau'r effeithlonrwydd a'r gwerth am arian gorau posibl wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i waith y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1166(BB), yn ôl.*